

## Cylch Gorchwyl Ymchwiliad Covid-19

Bydd yr Ymchwiliad yn archwilio, yn ystyried ac yn adrodd ar y paratodau a'r ymateb i'r pandemig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, hyd at ac yn cynnwys dyddiad sefydlu ffurfiol yr Ymchwiliad, x Mehefin 2022.

Wrth gyflawni ei waith, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried materion a gadwyd yn ôl ac a ddatganolwyd ar draws y Deyrnas Unedig, yn ôl yr angen, ond bydd yn ceisio lleihau dyblygu o ran ymchwilio, casglu tystiolaeth ac adrodd gydag unrhyw ymchwiliad cyhoeddus arall a sefydlwyd gan y llywodraethau datganoledig. I gyflawni hyn, bydd yr ymchwiliad yn nodi'n gyhoeddus sut y mae'n bwriadu lleihau dyblygu, a bydd yn cysylltu ag unrhyw ymchwiliad o'r fath cyn iddo ymchwilio i unrhyw fater sydd hefyd o fewn cwrpas yr ymchwiliad hwnnw.

Wrth gyflawni ei nodau, bydd yr Ymchwiliad yn gwneud y canlynol:

- a) ystyried unrhyw wahaniaethau sy'n amlwg yn effaith y pandemig ar wahanol categorïau o bobl, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rheini sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chategorïau cydraddoldeb o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998;
- b) gwrandio ar brofiadau teuluoedd mewn profedigaeth ac eraill sydd wedi dioddef caledi neu golled o ganlyniad i'r pandemig, ac ystyried hynny'n ofalus. Er na fydd yr ymchwiliad yn ystyried achosion unigol o niwed neu farwolaeth yn fanwl, bydd gwrandio ar y cyfrifon hyn yn sail i'w ddealltwriaeth o effaith y pandemig a'r ymateb, ac o'r gwersi i'w dysgu;
- c) tynnu sylw at ba wersi a ganfuwyd yn sgil parodrwydd a'r ymateb i'r pandemig a allai fod yn berthnasol i argyfyngau sifil eraill;
- d) rhoi ystyriaeth resymol i gymariaethau rhyngwladol perthnasol; a
- e) chynhyrchu ei adroddiadau (gan gynnwys adroddiadau interim) ac unrhyw argymhellion yn brydlon.

Dyma nodau'r Ymchwiliad hwn:

1. Archwilio'r ymateb i COVID-19 ac effaith y pandemig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a llunio adroddiad naratif ffeithiol, gan gynnwys:
  - a) Yr ymateb i iechyd y cyhoedd ledled y DU, gan gynnwys
    - i) parodrwydd a gwytnwch;
    - ii) sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud, eu cyfleu, eu cofnodi a'u gweithredu;
    - iii) gwneud penderfyniadau rhwng llywodraethau'r DU;
    - iv) rolau llywodraeth ganolog, gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol a rhanbarthol, a'r sector gwirfoddol a chymunedol, a'r cydweithio rhyngddynt;

- v) argaeledd a defnydd data, ymchwil a thystiolaeth arbenigol;
- vi) rheolaeth a gorfodaeth ddeddfwriaethol a rheoleiddiol;
- vii) gwarchod a diogelu pobl sy'n agored i niwed yn glinigol;
- viii) defnyddio'r cyfyngiadau symud ac ymyriadau 'anfferyllol' eraill fel cadw pellter cymdeithasol a defnyddio gorchuddion wyneb;
- ix) profi ac olrhain cysylltiadau, ac ynysu;
- x) yr effaith ar iechyd meddwl a lles y boblogaeth, gan gynnwys y rheini a gafodd eu niweidio'n sylweddol gan y pandemig, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny;
- xi) yr effaith ar iechyd meddwl a lles y rhai sydd mewn profedigaeth, gan gynnwys cymorth ar ôl profedigaeth;
- xii) yr effaith ar weithwyr y sector iechyd a gofal a gweithwyr allweddol eraill;
- xiii) yr effaith ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys iechyd, lles a gofal cymdeithasol;
- xiv) darpariaeth addysg a blynyddoedd cynnar;
- xv) cau ac ailagor y sectorau lletygarwch, manwerthu, chwaraeon a hamdden, a theithio a thwristiaeth, addoldai, a sefydliadau diwylliannol;
- xvi) tai a digartrefedd;
- xvii) diogelu a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig;
- xviii) carchardai a manau cadw eraill;
- xix) y system gyfiawnder;
- xx) mewnfudo a lloches;
- xxi) teithio a ffiniau; a
- xxii) diogelu arian cyhoeddus a rheoli risg ariannol.

b) Ymateb y sector iechyd a gofal ledled y DU, gan gynnwys:

- i) parodrwydd, capasiti cychwynnol a'r gallu i gynyddu capasiti, a gwynnwch;
- ii) cyswllt cychwynnol â gwasanaethau cyngor gofal iechyd swyddogol fel 111 a 999;
- iii) rôl lleoliadau gofal sylfaenol megis Ymarfer Cyffredinol;
- iv) rheoli'r pandemig mewn ysbytai, gan gynnwys atal a rheoli heintiau, brysbennu, capasiti gofal critigol, rhyddhau cleifion, defnyddio penderfyniadau 'Na cheiser dadebru cardio-anadlol' (DNACPR), y dull o ymdrin â gofal lliniarol, profi'r gweithlu, newidiadau i arolygiadau, a'r effaith ar lefelau staffio a staff;
- v) rheoli'r pandemig mewn cartrefi gofal a lleoliadau gofal eraill, gan gynnwys atal a rheoli heintiau, trosglwyddo preswylwyr i gartrefi, triniaeth a gofal preswylwyr, cyfyngiadau ar ymweld, profi'r gweithlu a newidiadau i arolygiadau;
- vi) gofal yn y cartref, gan gynnwys gan ofalwyr di-dâl;
- vii) gofal cynenedigol ac ôl-enedigol;

- viii) caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau allweddol, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol ac peiriannau anadlu;
- ix) datblygiad, darpariaeth ac effaith gwasanaethau therapiwtig a brechlynnau;
- x) canlyniadau'r pandemig ar ddarpariaeth ar gyfer cyflyrau ac anghenion nad ydynt yn gysylltiedig â COVID; a
- xi) ar gyfer y rheini sy'n profi COVID hir.

c) Yr ymateb economaidd i'r pandemig a'i effaith, gan gynnwys ymyriadau llywodraethol drwy:

- i) cymorth i fusnesau, swyddi a phobl hunangyflogedig, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, cynlluniau benthyciadau, rhyddhad ardrethi busnes a grantiau;
- ii) cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus perthnasol;
- iii) cyllid ychwanegol ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol; a
- iv) budd-daliadau a thâl salwch, a chefnogaeth i bobl agored i niwed.

2. Nodi'r gwersi i'w dysgu o'r uchod, er mwyn cyfrannu at y paratodau ar gyfer pandemigau yn y dyfodol ledled y DU.